| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **4 MAWRTH 2016** |
| **TEITL:** | **CAIS AMRYWIO TRWYDDED EIDDO –<br>THE OLD MARKET HALL, STRYD Y PLAS, CAERNARFON** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## MANYLION Y CAIS

Derbyniwyd cais i amrywio trwydded eiddo The Old Market Hall, Stryd y Plas, Caernarfon ar 14 Ionawr 2016 oddi wrth deilydd y drwydded Mr David Lloyd Williams. Gwelir copi o'r ffurflen gais fel Atodiad 1.

Eglurir yn y ffurflen gais fod natur y sefydliad wedi newid ers i'r busnes gychwyn yn Gorffennaf 2014 a bod yr eiddo wedi cynnal sawl digwyddiadau amrywiol o dan drefn Hysbyseb Digwyddiad Dros Dro (TENs). Natur yr amrywiad arfaethedig yw ymestyn y gweithgareddau trwyddedig i gynnwys yr holl mathau o adloniant wedi ei rheoleiddio, ymestyn oriau gwerthu alcohol a darparu lluniaeth hwyr y nos. Gwelir tabl drosodd.

Mae'r camau mae'r ymgeisydd yn bwriadu dilyn i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu wedi eu rhestri yn adran M o'r ffurflen gais.

Gwelir copi o'r trwydded gyfredol fel Atodiad 2.

## SYLWADAU

| Ymateb | Sylwadau |
|---|---|
| Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd | Dim gwrthwynebiad – cynnig amodau |
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad – cynnig amodau |
| Gwasanaeth Tan & Achub | Dim sylwadau |
| Partion eraill a diddordeb | 3 Gwrthwynebiad<br>1 Cefnogi |

Gwelir copi o'r holl sylwadau fel Atodiad 3.

Y mae'r awdurdod trwyddedu wedi derbyn cadarnhad oddi wrth yr ymgeisydd ei fod yn derbyn yr amodau y mae'r Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd a Heddlu Gogledd Cymru yn dymuno gosod ar y trwydded.

Derbyniwyd 3 gwrthwynediab i'r cais oddi wrth preswylydd lleol. Mae eu gwrthwynebiad yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu o Atal Niwsans Cyhoeddus. Mae un gwrthwynebydd yn awgrymu bod yr ymgeisydd heb hysbysebu y cais mewn man amlwg ar yr eiddo ond mae'r Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod yr hysbysebion a oedd yn cael eu arddangos ar flaen yr eiddo yn cwrdd a'r rheoliadau.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r is-bwyllgor ystyried y cais am drwydded eiddo yn unol ag amcanion Deddf Trwyddedu 2003 a'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu.